The Wildlife Trusts

# Swyddog Morol (Cymru)

## PECYN RECRIWTIO

**Cyflog: hyd at £28,907**
**Lleoliad: Gweithio gartref gyda theithio rheolaidd i/ar draws Cymru ynghyd â theithio achlysurol yn y DU**
**Llawn amser: 35 awr yr wythnos**
**Contract Tymor Penodol hyd at fis Mawrth 2026**




Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur
Rhif Elusen Gofrestredig 207238
© Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur 2024


VIEW FROM CURBAR EDGE AT DAWN © BEN HALL/2020VISION

The Wildlife Trusts

## Amdanoch ni

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd sy'n rhannu cyfres o gredoau cyffredin. Mae gan y mudiad fwy na 900,000 o aelodau, gan gynnwys 200,000 o aelodau iau, 38,000 o wirfoddolwyr a 3,000 o staff ar draws y ffederasiwn o 46 o Ymddiriedolaethau Natur lleol annibynnol a Chymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT). Rydyn ni'n gweithio ym mhob rhan o'r DU ac ar Alderney ac Ynys Manaw. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn cynrychioli'r pum Ymddiriedolaeth Natur ledled Cymru. Gyda'i gilydd, yr enw ar y 46 o Ymddiriedolaethau a'r elusen ganolog yw Yr Ymddiriedolaethau Natur.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi adfer ac maent yn gofalu am rai o'r llefydd mwyaf arbennig ar gyfer bywyd gwyllt yn y DU. Gyda'n gilydd rydyn ni'n rheoli mwy na 2,300 o warchodfeydd natur, yn gweithredu 123 o ganolfannau ymwelwyr ac addysg ac yn berchen ar 29 o ffermydd gweithredol. Rydyn ni'n cynnal ymchwil, rydyn ni'n sefyll dros fywyd gwyllt a llefydd gwyllt sydd dan fygythiad, ac rydyn ni'n helpu pobl i gael mynediad at fyd natur.

Bydd y 10 mlynedd nesaf yn allweddol wrth i ni benderfynu pa fath o fyd y byddwn ni i gyd yn byw ynddo. Mae angen i ni wyrdroi'r colli ar fywyd gwyllt ar frys, a rhoi natur mewn adferiad ar raddfa fawr os ydyn ni am atal trychineb hinsawdd ac ecolegol. Bydd hyn yn gofyn am randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn cymryd camau i adfer byd natur. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau mawr, beiddgar yn y ffordd rydyn ni'n meddwl ac yn gweithredu, a datblygu diwylliant cadarn, cydweithredol. Rydyn ni eisoes wedi cymryd camau breision ymlaen gyda datblygu ein polisi morol, ac rydyn ni nawr yn barod i adeiladu ar hynny.

Os ydych chi'n gadwraethwr morol angerddol sy'n chwilio am rôl a fydd yn creu budd sylweddol i fywyd gwyllt a byd natur ledled Cymru gydag un o'r elusennau natur mwyaf poblogaidd yn y DU, mae gennym ni gyfle cyffrous i chi.

Ni yw'r sefydliad anllywodraethol mwyaf sy'n gweithio yn y byd morol yn y DU, ac rydyn ni'n chwilio am gydweithiwr cefnogol, brwdfrydig a gwybodus i ymuno â'n tîm ni. Er gwaethaf Blue Planet ac, yn fwy diweddar, y gyfres Wild Isles, mae gennym ni waith i'w wneud o hyd i godi proffil y môr a phopeth sy'n byw ynddo.

Rydyn ni'n gwybod bod ein bywyd gwyllt morol ni dan bwysau cynyddol ac mae angen i ni wneud mwy i'w warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – ai chi yw'r person i'n helpu ni i wneud hynny? Rydyn ni'n chwilio am unigolyn i ymuno â'r Ymddiriedolaethau Natur i gyflwyno newidiadau cadarnhaol mewn polisi cadwraeth forol yng Nghymru.

The Wildlife Trusts

## Amdanoch chi

Byddwch yn drefnus ac yn llawn cymhelliant, yn gallu cymryd yr awenau ac arwain y gwaith o gyflwyno polisi cadwraeth morol yn effeithiol yng Nghymru. Bydd gennych ddealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu bywyd gwyllt morol. Mae'n debygol y bydd gennych brofiad o waith eiriolaeth ac, yn ddelfrydol, dealltwriaeth o ddeddfwriaeth amgylcheddol Cymru. Byddwch wedi arfer cadw cofnodion manwl gywir a gallwch gyflwyno'n glir ac yn broffesiynol. Mae'n debygol y bydd gennych ddiddordeb brwd mewn cadwraeth forol yn y DU a dealltwriaeth ohoni.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gwerthfawrogi angerdd, parch, ymddiriedaeth, integriti, gweithredu pragmatig a chryfder mewn amrywiaeth. Er ein bod yn angerddol dros hyrwyddo ein nodau, rydyn ni'n gynhwysol, ac nid yn feirniadol. Rydyn ni'n annog yn arbennig geisiadau gan bobl heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sector ni, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol a phobl ag anableddau. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu mudiad sy'n cydnabod ac sydd wir yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a hunaniaethau unigol.

Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gweld eu cyfrifoldebau Diogelu fel mater hynod ddifrifol. Cliciwch yma i ddarllen ein datganiad ymrwymiad.

**Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, rydyn ni wedi ymrwymo i gynnig cyfweliad i unrhyw berson ag anabledd sy'n bodloni holl feini prawf hanfodol y swydd. Rhowch wybod i ni os oes arnoch chi angen unrhyw addasiadau i wneud ein proses recriwtio yn fwy hygyrch.**

**Mae'r RSWT wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ei staff drwy ei addewid recriwtio Cae Chwarae Teg a bydd yn cynnig cyfweliad i unrhyw ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd.**

**Dylech fod yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn ceisiadau efallai os oes gennym reswm i gredu eu bod wedi cael eu cynhyrchu'n gyfan gwbl gan ddefnyddio adnoddau AI cynhyrchiol.**

**Gall y rôl hon fod yn amodol ar archwiliad gan y DBS.**


HONEY BEE © JON HAWKINS, SURREY HILLS PHOTOGRAPHY

The Wildlife Trusts

## Disgrifiad Swydd – Pwrpas Cyffredinol

- **Cefnogi Cyfarwyddwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru i ddatblygu rhaglen adfer morol ar gyfer Cymru gan gynnwys ymgyrchoedd i sicrhau amgylchedd morol sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt. Bydd y swydd hon yn cefnogi gwaith YNC drwy ddatblygu a hwyluso gwell ymwybyddiaeth o'n gweledigaeth ar gyfer ein moroedd erbyn 2030, drwy sicrhau cefnogaeth i bolisïau cadarn a gweithredu effeithiol.**

## Disgrifiad Swydd – Prif Gyfrifoldebau

- **Arwain ar raglenni adfer morol ar gyfer YNC:**
    - Arwain ar ddatblygu rhaglenni adfer morol yng Nghymru.
    - Cyfrannu at ddatblygu safbwyntiau'r Ymddiriedolaethau Natur ac eiriolaeth o ran materion cysylltiedig â'r rhaglenni adfer.
    - Gweithio gyda thîm Cadwraeth Forol RSWT i ddylanwadu ar bartneriaid i sicrhau bod ein hardaloedd morol gwarchodedig yn cael eu rheoli a'u monitro.
    - Rhoi cefnogaeth i'r Ymddiriedolaethau i ddeall a dylanwadu ar adfer morol yng Nghymru.
    - Cydlynu safbwyntiau gydag Ymddiriedolaethau Cymru a Gweithgorau perthnasol.
    - Sicrhau bod datblygiadau adfer yn cael eu tracio, a bod personél allweddol yn cael eu hysbysu am gyfleoedd neu broblemau posibl.
    - Eiriolwr ar ran gwaith morol i Lywodraeth Cymru.
    - Gweithio gyda chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur ledled y DU a chyrff anllywodraethol eraill i sicrhau bod negeseuon allweddol a safbwyntiau polisi, a dulliau gweithredu, yn cyd-fynd lle bynnag y bo modd.
    - Gweithio'n agos gyda staff yr Ymddiriedolaethau Natur i gyflwyno gweithgareddau ymarferol i helpu i arddangos arferion gorau a datblygu'r hyn a ddysgir ar gyfer polisi ac eiriolaeth yn y dyfodol.



JUMPING SPIDER © JON HAWKINS, SURREY HILLS PHOTOGRAPHY




## Disgrifiad Swydd – Prif Gyfrifoldebau

- **Datblygu a rheoli cysylltiadau ag amrywiaeth o randdeiliaid ac eiriolwyr, gan gynnwys y sector adnewyddadwy morol a chynrychiolwyr pysgodfeydd, i adeiladu, llunio a chyflawni gwaith adfer yng Nghymru:**
  - Nodi partneriaid a rhanddeiliaid allweddol a rheoli perthnasoedd y cytunwyd arnynt.
  - Cefnogi datblygiad a chynnal rhwydweithiau o sefydliadau partner.
  - Paratoi papurau briffio a mynychu cyfarfodydd allweddol yn ôl y gofyn.
  - Gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru, chwilio am gyfleoedd i dreialu dulliau newydd.
  - Gweithio gyda chydweithwyr yn yr Ymddiriedolaethau Natur ar waith eiriolaeth.
  - Sicrhau bod y CRM yn cael ei ddiweddaru mewn perthynas â chysylltiadau allweddol.

- **Datblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r amgylchedd morol yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau cefnogaeth ar gyfer gweithredu cadarn a digonol:**
  - Gweithio'n agos gyda staff Ymddiriedolaethau Cymru a thimau Cyfathrebu ac Ymgyrchu RSWT, gan ddarparu cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i feithrin cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol i'n blaenoriaethau morol.
  - Cadw at bolisi dwyieithog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

- **Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol ac mae disgwyl iddynt ymddwyn mewn ffordd broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith amgylcheddol gyfeillgar, pennu a chynnal safonau personol uchel o effeithlonrwydd a gofal am gwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'fedru gwneud' sy'n seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

The Wildlife Trusts

# Manyleb Y Person

## Hanfodol

- Rhinweddau Personol:
  - Meddwl agored ond heriol
  - Angerddol a pharod i ddysgu
  - Gonest a chynhwysol
  - Parod i dderbyn perchnogaeth
  - Aelod rhagorol o dîm

- Cymwyseddau Allweddol:
  - Rheoli prosiectau
  - Rheoli perthnasoedd â chwsmeriaid
  - Agwedd broffesiynol a hynod effeithlon at waith, yn enwedig o dan bwysau
  - Cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig i ystod eang o gynulleidfaoedd

- Profiad:
  - Dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
  - Datblygu prosiectau morol
  - Cysylltu a thrafod gydag amrywiaeth eang o sefydliadau/unigolion

- Gwybodaeth a Sgiliau:
  - Gwybodaeth sylweddol am faterion cadwraeth sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol, yn ddelfrydol mewn perthynas â Chymru
  - Gwybodaeth sylweddol am fioamrywiaeth forol ac ecosystemau morol, gan gynnwys biotopau arfordirol ac oddi ar y lan
  - Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth forol ac amgylcheddol, yn ddelfrydol yng Nghymru
  - Dealltwriaeth eang o sector amgylcheddol Cymru a'r DU
  - Materion amgylcheddol sy'n effeithio ar ardaloedd morol ac arfordirol
  - Ymchwilio i, dadansoddi, dehongli a chyflwyno gwybodaeth
  - Blaenoriaethu ac ymgynghori â phartneriaid mewnol ac allanol
  - Hyblygrwydd a'r gallu i gadw at derfynau amser tynn
  - Ennyn parch cynulleidfaoedd mewnol ac allanol

## Dymunol

- Cymwyseddau Allweddol:
  - Datblygu strategaeth (yn ddelfrydol yn seiliedig ar eiriolaeth)

- Profiad:
  - Cyflwyno ymgyrchoedd eiriolaeth llwyddiannus
  - Arwain, trefnu a chyflawni ymgyrchoedd

- Gwybodaeth a Sgiliau:
  - Gwybodaeth am y broses ddeddfwriaethol a gweithdrefnau seneddol Cymru
  - Medrus wrth ddefnyddio rhaglenni digidol



## Manteision ychwanegol gweithio i'r Ymddiriedolaethau Natur

- Yswiriant meddygol preifat
- Cynllun aberthu cyflog cerbydau trydan
- 26 diwrnod o wyliau bob blwyddyn ac 8 gŵyl y banc
- 4 diwrnod ychwangol o wyliau o gwmpas nadolig
- Cynllun Aswiriant Bywyd Anghyfrannol
- Cynllun pensiwn hae
- Disgownt ar gyfer gweithiwr elusen
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr

**Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau: 3 Tachwedd 2024**

**Cyfweliad Cyntaf: 12 Tachwedd 2024**

**Ail Gyfweliad: 19 Tachwedd 2024**



SANDERLING FLOCK © FERGUS GILL/2020VISION



BEAVER © RUSSELL SAVORY